



Sgwrs Sydyn



1 - Mynd i'r Gemau Olympaidd

1	Hei! Ble wyt ti'n mynd heddiw?
2	Dw i'n mynd i'r Gemau Olympaidd.
1	WAW! Ble mae'e Gemau Olympaidd?
2	Mae'r Gemau Olympaidd yn y stadiwm.
1	Gwych! Beth wyt ti eisiau gweld?
2	Dw i eisiau gweld athletwyr yn cystadlu ac ennill medalau.
1	Beth ydy 'cystadlu'?
2	Cystadlu' ydy 'to compete' a 'cystadleuaeth' ydy 'competition'.
1	O, dw i'n gweld. Pa gystadleuaeth wyt ti eisiau gweld?
2	Dw i eisiau gweld y gystadleuaeth rhedeg. Dw i eisiau gweld Usain Bolt.
1	Pwy ydy 'Usain Bolt'?
2	Mae Usain Bolt yn byw yn Jamaica. Mae e'n rhedeg y gystadleuaeth rhedeg 100m.
1	Ydy e'n dda?
2	YDY! Mae e'n dda iawn!
1	Ydy e'n gyflym?
2	Ydy! Mae e'n gyflym iawn! Mae e wedi ennill medal aur yn y Gemau Olympaidd.
1	Bobol bach! Da iawn! Dw i ddim yn hoffi rhedeg. Mae'n well 'da fi nofio a deifio.
2	Dw i'n hoffi nofio a deifio hefyd. Ta beth, rhaid i fi fynd - mae'n naw o'r gloch. Hwyl!
1	Hwyl! Mwynha'r Gemau Olympaidd!





Sgwrs Sydyn



2 - Mynegi barn am yr athletwyr

1	Beth wyt ti'n feddwl o Usain Bolt?
2	Dw i'n hoffi Usain Bolt achos mae e'n gyflym iawn. Beth amdanat ti?
1	Dw i'n hoffi Usain Bolt hefyd achos mae e'n dalentog.
2	Mae Usain Bolt yn cwl hefyd! Beth wyt ti'n feddwl o Michael Phelps?
1	Dw i'n hoffi Michael Phelps achos mae e'n dda iawn.
2	Ydy, mae e'n nofio'n gyflym iawn, ond mae'n well 'da fi David Davies.
1	Pwy ydy David Davies?
2	Mae David Davies yn byw yng Nghymru. Mae e'n nofio'n dda iawn ac mae e wedi ennill dau medal yn y Gemau Olympaidd.
1	Bobol bach! Da iawn! Mae Nicole Cooke yn byw yng Nghymru hefyd.
2	Pwy ydy Nicole Cooke?
1	Mae hi'n beicio ar y ffordd. Mae hi wedi ennill medalau yn y Gemau Olympaidd hefyd.
2	Beth wyt ti'n feddwl o Nicole Cooke?
1	Dw i'n hoffi Nicole Cooke achos mae hi'n wych.
2	Beth wyt ti'n feddwl o Tom Daley?
1	Dw i ddim yn hoffi Tom Daley achos mae e'n ofnadwy. Beth amdanat ti?
2	Dw i ddim yn hoffi Tom Daley hefyd achos mae e'n sbwriel!

